Museums Association

At: Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Delyth.Jewell@senedd.cymru
Caerdydd
CF99 1SN

23 Rhagfyr 2022

Annwyl Delyth Jewell AS

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi bod Cyngor Dinas Caerdydd yn bwriadu lansio ymgynghoriad ar gynllun i gau Amgueddfa Caerdydd.

Mae ymgynghoriad Cyngor Dinas Caerdydd yn gofyn i drigolion ddewis rhwng opsiwn i symud yr Amgueddfa o'r Hen Lyfrgell a'i gwneud yn atyniad symudol er mwyn arbed £266,000 y flwyddyn, ac opsiwn i gadw'r amgueddfa a chanfod arbedion mewn mannau eraill. Mae Cymdeithas yr Amgueddfeydd (MA) yn gwrthwynebu'n bendant yr opsiwn o gau'r amgueddfa a'i gwneud yn atyniad symudol.

Mae'r MA yn gorff proffesiynol sy'n cynrychioli pawb sy'n gweithio mewn amgueddfeydd a gydag amgueddfeydd yn y Deyrnas Unedig. Rwy'n dwyn y mater hwn i'ch sylw chi gan ein bod yn hynod bryderus am y cynllun hwn a'r effaith ar drigolion Caerdydd, busnesau lleol, twristiaeth, aelodau'r staff a chasgliad yr amgueddfa pe bai'r amgueddfa'n cau.

Mae Amgueddfa Caerdydd yn amgueddfa arobryn sy'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol ac sy'n chwarae rhan hanfodol ym mywyd diwylliannol y ddinas. Mae'r amgueddfa'n cynnig nifer o fanteision cymdeithasol i'r gymuned leol a'r tu hwnt, ac mae'n cyfrannu at brif amcanion llesiant Cyngor Dinas Caerdydd, sef creu cymunedau diogel, hyderus a grymusol yng Nghymru. Roedd arddangosfa 'Pobl Butetown' yn dogfennu hanes cymunedau ethnig-amrywiol Caerdydd ac roedd yn dystiolaeth o'r ffyrdd y mae Amgueddfa Caerdydd wedi bwrw ati i rymuso lleisiau cymunedau lleiafrifoedd ethnig y ddinas, sy'n aml wedi eu gwthio i gyrion y brif ffrwd ddiwylliannol yng Nghymru. Byddai cau Amgueddfa Caerdydd yn golled sylweddol i fywiogrwydd diwylliannol y ddinas.

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a chyllidwyr lleol a chenedlaethol eraill fel Cronfa Gasgliadau Esmée Fairbairn wedi buddsoddi yn yr amgueddfa. Byddai cau'r amgueddfa mor fuan ar ôl y buddsoddiad hwn yn peryglu unrhyw ffynonellau cyllid yn y dyfodol.

Mae'r syniad o droi'r amgueddfa yn amgueddfa symudol neu wib-amgueddfa hefyd yn achos pryder. Gall amgueddfeydd symudol fod yn effeithiol wrth estyn allan at gymunedau, ond byddai angen buddsoddiad sylweddol i wneud hyn. Rydym yn pryderu hefyd am ddyfodol y casgliadau presennol gan nad yw'r cynllun yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gofalu am y casgliadau na'u storio. Ar ôl cymryd costau symud a storio i ystyriaeth, mae'n fwy na thebyg y byddai costau o'r fath yn fwy na'r arbedion tymor byr a ragwelir.

Bu Amgueddfa Caerdydd yn arloesi o ran ymgysylltu â'r gymuned ers amser; byddai cau'r amgueddfa yn golygu colli ased diwylliannol llewyrchus sy'n llwyddo'n gyson i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

MUSEUMS CHANGE LIVES



Registered in England with limited liability by guarantee under no. 252131. Charity Registration no. 313024. Scottish charity no. SC041856.
VAT Registration no. 523 0407 92

Museums Association

Rydym yn sylweddoli bod awdurdodau lleol mewn sefyllfa ariannol ddyrys a'u bod yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd. Fodd bynnag, ni fydd cau amgueddfa leol boblogaidd yn datrys y broblem. Mae'r amgueddfa'n gwneud cyfraniad economaidd pwysig i'r ddinas. Mae data Sbotolau o 2020 yn dangos bod amgueddfeydd Cymru'n cyfrannu £134m y flwyddyn at economi Cymru ac, felly, arbediad tymor byr ddôi o gau'r amgueddfa, a chost hirdymor. Yn ogystal, mae'r amgueddfa'n atyniad i dwristiaid. Mae'n denu ymwelwyr sy'n gwario arian yn siopau a bwytai'r ddinas gan gyfrannu ymhellach at yr economi leol.

Mae Cymdeithas yr Amgueddfeydd yn cydweithio â Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru i baratoi'r achos cryfaf posibl dros gadw'r amgueddfa ar gyfer pobl Cymru. Byddem yn ddiolchgar o gael eich cefnogaeth i godi ymwybyddiaeth o'r posibilrwydd y bydd Amgueddfa Caerdydd yn cau ac i ganfod datrysiad na fydd yn arwain at golli sefydliad diwylliannol mor werthfawr.

Yn gywir,

Sharon Heal

Cyfarwyddwr,
Cymdeithas yr Amgueddfeydd (MA)
Cyfeiriad ebost: Sharon@museumsassociation.org

MUSEUMS CHANGE LIVES



Registered in England with limited liability by guarantee under no. 252131. Charity Registration no. 313024. Scottish charity no. SC041856. VAT Registration no. 523 0407 92